# Cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gefnogi datblygiad holistaidd plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys cefnogi eu datblygiad corfforol, emosiynol, cymdeithasol, ieithyddol, cyfathrebu a gwybyddol. Mae hefyd yn cynnwys cyfrannu at gynllunio ar gyfer anghenion datblygu plant neu bobl ifanc, gan sicrhau dull sy’n canolbwyntio ar y plentyn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. arsylwi sut mae plant neu bobl ifanc yn symud, yn cydlynu eu symudiadau, ac yn defnyddio cyfarpar
2. arsylwi hyder a chyfranogiad plant neu bobl ifanc, a sut maent yn defnyddio cyfleoedd i feithrin hunan-barch ac ymwneud ag eraill
3. arsylwi sut mae plant neu bobl ifanc yn canolbwyntio neu’n talu sylw
4. arsylwi sut mae’n well gan blant neu bobl ifanc ddysgu
5. arsylwi sut mae plant neu bobl ifanc yn defnyddio eu dychymyg a’u gallu creadigol
6. arsylwi sut mae plant neu bobl ifanc yn defnyddio iaith, dulliau cyfathrebu ac yn mynegi eu teimladau a’u hemosiynau
7. rhoi adborth i eraill ar ganfyddiadau'r arsylwadau
8. cyfrannu at asesu a chynllunio datblygiad plant neu bobl ifanc
9. darparu lleoedd, profiadau a rhyngweithiadau i gefnogi cydsymud llaw a llygad a sgiliau echddygol bras a manwl plant neu bobl ifanc
10. Amser i blant a phobl ifanc ymarfer sgiliau corfforol
11. cefnogi darparu lleoedd, profiadau a rhyngweithiadau i gefnogi datblygiad gwybyddol a chyfathrebu plant neu bobl ifanc
12. dathlu ac annog datblygiad cymdeithasol a rhyngweithiadau cadarnhaol plant neu bobl ifanc
13. annog a chefnogi annibyniaeth plant neu bobl ifanc i wneud dewisiadau a phenderfyniadau drostynt eu hunain
14. cyfrannu at amgylcheddau cadarnhaol ac anogol sy’n cefnogi dewisiadau ac anghenion plant neu bobl ifanc
15. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer datblygiad plant neu bobl ifanc
16. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth gefnogi datblygiad plant a phobl ifanc

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae sicrhau bod gwybodaeth am ddatblygiad ar gael i blant a phobl ifanc ac eraill
2. y newidiadau y gall plant a phobl ifanc wynebu ac effaith newid ar eu datblygiad
3. patrwm datblygiad o adeg cyn geni hyd at 21 oed
4. ffactorau cymdeithasol, corfforol ac economaidd sy'n gallu effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc
5. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc
6. dylanwad diwylliant a chefndir ar ddatblygiad plant a phobl ifanc
7. gweithdrefnau'r gweithle ar gyfer arsylwi ac asesu datblygiad plant a phobl ifanc
8. amrywiaeth o ddulliau i arsylwi plant a phobl ifanc
9. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
10. pwysigrwydd rhoi adborth ar arsylwadau i lywio ymarfer
11. sut mae cyfrannu at gynllunio ar gyfer datblygiad plant a phobl ifanc
12. sut mae datblygu perthynas gyson, ofalgar a meithringar gyda phlant a phobl ifanc
13. sut mae cefnogi lles emosiynol, hyder a gwydnwch plant a phobl ifanc
14. ffyrdd o fod yn gefnogol, yn realistig ac yn gyson wrth ymateb i ymddygiad plant a phobl ifanc
15. sut mae rhoi anogaeth ystyrlon a dathlu cyflawniadau plant a phobl ifanc
16. pwysigrwydd gwrando ar blant a phobl ifanc a sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cynnwys yn y prosesau cynllunio
17. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hybu datblygiad plant a phobl ifanc
18. sut mae cefnogi'r gwaith o ddatblygu rheoleiddio emosiynol mewn plant a phobl ifanc
19. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
20. gwahanol gyfleoedd i blant a phobl ifanc asesu a chymryd risgiau cadarnhaol
21. sut mae arferion gofal bob dydd yn gallu cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
22. yr amrywiaeth o leoedd, profiadau a rhyngweithiadau sy'n cael eu defnyddio i gefnogi datblygiad plant a phobl ifanc

23. sut y gall amgylcheddau diogel ac anogol gefnogi sgiliau corfforol a hyder wrth symud
24. sut mae cefnogi datblygiad rhifedd plant a phobl ifanc
25. sut mae cefnogi datblygiad llythrennedd plant a phobl ifanc
26. sut mae cefnogi cyfathrebu drwy amrywiaeth o ddulliau ac mewn lleoliadau dwyieithog neu amlieithog
27. sut mae annog creadigrwydd plant a phobl ifanc
28. pwysigrwydd profiadau ymarferol a chyfleoedd i archwilio deunyddiau cynaliadwy, naturiol a phenagored
29. sut mae cefnogi cyfnodau tawel ac amseroedd i orffwys
30. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
31. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
32. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
33. sut y gall eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth gefnogi datblygiad plant a phobl ifanc, a sut i fynd i'r afael â hyn
34. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi datblygiad plant a phobl ifanc

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD236

Cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD236 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Datblygiad Plant Pobl Ifanc, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |